**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach: Ymchwiliad i'r Gefnogi Entrepreneuriaeth**

**Cofnodion y sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd am 12:00pm ar 6 Rhagfyr 2017**

**Ystafell Gynadledda A – Llawr Daear Tŷ Hywel**

**YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Janet Finch-Saunders AC | Cadeirydd |
| Hannah Moscrop | Swyddfa Janet Finch-Saunders AC |
| Steve Dowling | Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra |
| Robin Lewis | Swyddfa Vikki Howells AC |
| Helen Walbey | Recycle Scooters |
| Gareth Jones | Town Square Spaces |
| Rob Cooper | Little Man Coffee |
| Elgan Morgan | Siambr Fasnach De Cymru |
| Amy Bainton | Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| Jenna Williams | Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| Ruth Richards | Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri |

**YMDDIHEURIADAU:**

| | |
|---|---|
| Vikki Howells AC | Is-gadeirydd |
| Mark Isherwood AC | Aelod |
| Edward Woodall | Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra |

## 1. Croeso a chyflwyniad

Agorodd JFS y cyfarfod ac estynnodd groeso i bawb. Cyflwynodd gylch gorchwyl yr Ymchwiliad i Gefnogi Entrepreneuriaeth gan dynnu sylw at newidiadau yn y gwasanaethau sydd ar gael ar y stryd fawr yn nhrefi Cymru wrth i ofynion cwsmeriaid newid.

## 2. Panel yr Entrepreneuriaid

Soniodd y panelwyr am eu cefndir ym myd busnes. Disgrifiodd HW ei phrofiadau fel cyflogwr, siaradodd GJ am ei waith yn hybu entrepreneuriaeth ar y Stryd Fawr, a soniodd RC am yr hyn a'i hysgogodd i fod yn berchennog busnes.

*Pobl*

Mae Busnes Cymru yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau ac mae'n werthfawr fel porthol un stop i entrepreneuriaid. Fodd bynnag, nid yw'n hawdd ei ddefnyddio ac, yn aml, mae'n cynnwys gwybodaeth nad yw'n gyfredol. Byddai'n ddefnyddiol pe bai Busnes Cymru yn darparu cymorth ychwanegol i entrepreneuriaid sy'n siarad Saesneg fel ail iaith ac yn cynnig arweiniad ar wasanaethau a mentrau'n ymwneud â sectorau penodol. Argymhellodd y panel y dylid sefydlu gweithgor dan arweiniad busnes i ddiweddaru gwasanaethau cymorth busnes gyda Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio gormod ar helpu busnesau sy'n tyfu i gael gafael ar arian, er nad yw'r rhan fwyaf o fusnesau'r Stryd Fawr yn awyddus i dyfu. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig amrywiaeth eang o gymorth i fusnesau, a dylid gwerthuso'r cymorth hwn o ran ei effaith ar dwf organig busnesau yn hytrach nag ar ddadleoli busnesau. Mae busnesau'n drysu ynghylch eu cymhwyster i fanteisio ar Raglen Twf Cyflym neu wasanaethau Busnes Cymru.

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r modd y mae'n darparu ei gwasanaethau cymorth busnes presennol. Dylai hyn gynnwys y Rhaglen Mentora Busnes i sicrhau bod safonau ansawdd yn cael eu bodloni ac i godi ymwybyddiaeth perchnogion busnes.

Tynnodd y panel sylw at yr angen i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd yng Nghymru, yn enwedig sgiliau cyfathrebu a sgiliau digidol, ac i sicrhau bod y system prentisiaethau'n gweithio'n effeithiol i gyflogwyr o bob maint. Cytunodd y panel nad yw'r term 'entrepreneur' yn berthnasol i'r rhan fwyaf o berchnogion busnes, a hynny oherwydd y modd y caiff entrepreneuriaid eu portreadu yn y cyfryngau a'r ffocws ar sectorau technoleg.

*Lleoedd*

Tanlinellwyd bod gwasanaethau band eang a ffonau symudol yn hanfodol i ddenu pobl i'r stryd fawr ac i wella cynhyrchiant busnesau. Gall band eang gwael danseilio'r gwasanaethau cwsmeriaid y gall busnesau'r stryd fawr eu cynnig. Mae un aelod o'r panel yn cymryd rhan mewn astudiaeth beilot yn ymwneud â band eang cyflym iawn ac mae hyn wedi gwella cynhyrchiant ar-lein yn ddramatig. Galwodd y panel am strategaeth genedlaethol i sicrhau bod gwasanaeth band eang addas ar gael i holl fusnesau Cymru, gan gynnwys cynnig cymhellion i fusnesau preifat osod seilwaith band eang a buddsoddi mewn 5G.

Pwysleisiodd y panel bwysigrwydd cynlluniau Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach i hybu twf busnesau. Cytunwyd y dylai'r system ardrethi busnes ysgogi busnesau bach i fuddsoddi. Galwodd y panel hefyd am ragor o gosbau ariannol i landlordiaid eiddo gwag yng nghanol trefi.

Anogwyd Llywodraeth Cymru i ymchwilio ymhellach i'r modd y gall polisïau hybu entrepreneuriaeth leol. Nodwyd y gallai safleoedd i fusnesau gydweithio yng nghanol trefi hefyd hybu twf busnesau drwy ei gwneud yn haws iddynt rwydweithio a mentora.

## 3. Panel Polisi

Mae economi Cymru wedi cryfhau ers y dirwasgiad ar sail hunangyflogaeth wirioneddol, yn hytrach na'r economi gig. Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod a dathlu cyfraniad economaidd yr hunangyflogedig.

Croesawodd y panel gynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach parhaol ac roedd am weld biliau ardrethi'n cael eu hailbrisio'n amlach er mwyn iddynt gyd-fynd yn well ag amgylchiadau economaidd. Mae'r broses o ddiwygio prentisiaethau yng Nghymru wedi bod yn fwy llwyddiannus nag yn Lloegr, ond mae angen hybu cyfleoedd i brentisiaeth ym mhob sector ac ar bob lefel.

Mae rhai busnesau'n defnyddio systemau gwerthu ar-lein i ategu eu presenoldeb ar y stryd fawr. Dywedodd y panel y dylai'r stryd fawr fod yn ganolfan fasnachol a chymdeithasol hyfyw, atyniadol i bobl a busnesau lleol.

## 4. Cloi

Diolchodd JFS i'r cynrychiolwyr cyn dirwyn y cyfarfod i ben.